

## HOWELLS, MORGAN (1794 - 1852), gweinidog gyda'r Methodistiaid

**Enw:** Morgan Howells  
**Dyddiad geni:** 1794  
**Dyddiad marw:** 1852  
**Priod:** Ann Howells (née Morgan)  
**Priod:** Mary Howells (née Lewis)  
**Rhiant:** Elizabeth Howells  
**Rhiant:** Morgan Howells  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn y ' Breach,' S. Nicholas, Morgannwg, ym Mai 1794, mab Morgan ac Elizabeth Howells, aelodau o seiat Fethodistaidd Trehyl (ac yn cymuno yn eglwys Llanddiddan Fach lle'r oedd y **Parch. Howell Howells**, y curad Methodistaidd, yn gweinyddu). Cafodd ychydig o addysg yn ysgolion ei ardal. Bu farw'i dad yn 1807, ac yn 1810 bu raid iddo fynd i Gasnewydd i ddysgu crefft saer. Cafodd argyhoeddiad dwys o dan weinidogaeth y Parch. John Rees, gweinidog capel Gobait, ac ymunodd â'r eglwys yno. Dechreuodd bregethu yn 1815, ac ordeiniwyd ef yn sasiwn Llangeitho, 1824. Bu'n briod ddwywaith: (1) a Mary Lewis, chwaer **Richard Lewis** ('Dic Penderyn'), 1827, (2) ag Ann Morgan, Glyn Ebwy, 1843. Symudodd i Dredegar adeg ei ail briodas, ac yno y bu farw 21 Mawrth 1852. Ef oedd prif addurn Methodistaeth Mynwy yn ystod ei oes fer, a daeth yn enwog dros Gymru fel pregethwr. Yr oedd bywiogrwydd ei ddychymyg, tanbeidrwydd ei deimlad, a gwres ei ddawn yn sicr o gynnuau tân ymhob oedfa. Cododd gapel yng Nghasnewydd yn 1829 a bu i ddyled hwnnw bron a'i lethu un adeg, ond casglodd arian dros y wlad i dalu amdano. Codwyd capel newydd yng Nghasnewydd yn goffa iddo yn 1903. Cyhoeddwyd *Gweithiau Morgan Howells ... pregethau a thraethodau* dan olygyddiaeth **Edward Matthews** yn 1858.

### Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

### Ffynonellau

E. Morgan, *Boanerges neu, Hanes bywyd y Parch. Morgan Howells* (New York 1853)

D. H. Williams, *The Rev. Morgan Howell, the eminent Welsh minister a lecture delivered before the Welsh Society of this town, at the town hall, on December 11th, 1907* (Casnewydd 1908)

Abraham Morris, *The story of the Ebenezer Calvinist Methodist Church worshipping at the Morgan Howell Memorial Chapel, Newport, Monmouthshire* (Casnewydd 1916)

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xvi, 49-58

*Y Drysorfa*, 1919, 418-9

*Y Lladmerydd*, 1910, 297

I. ap Nicholas, *Dic Penderyn, Welsh Rebel and Martyr* (Llundain 1945), 14, 54, 58

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103063883

Wikidata: Q20733945

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Roberts, G. M., (1953). HOWELLS, MORGAN (1794 - 1852), gweinidog gyda'r Methodistiaid. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HOWE-MOR-1794>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ôl gŵyl  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government